Deddf Trwyddedu 2003

Polisi Trwyddedu Drafft 2010

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam



CYNNWYS

Tudalen

Cefndir **3**

Cyflwyniad **3**

Amcanion Trwyddedu **3**

Atal Trosedd ac Anhrefn **4**

Goruchwylwyr Drysau **4**

Diogelwch y Cyhoedd **4**

Diogelwch Tân **5**

Atal Niwsans Cyhoeddus **5**

Amddiffyn Plant rhag Niwed **6**

Cerddoriaeth Fyw, Dawnsio a Theatr **7**

Digwyddiadau diwylliannol **7**

Trwyddedau Personol **8**

Trwyddedau Adeiladau **9**

Amodau Trwyddedu **10**

Gostyngiadau a Hyrwyddo Gwerthiant **10**

Rhaglen Weithredu **11**

Goruchwyliwr Adeilad Dynodedig **11**

Trosglwyddo Trwydded Adeilad **12**

Awdurdod Interim **12**

Oriau Trwyddedig **12**

Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro **13**

Gweithgareddau Eithriedig **14**

Datganiad Dros Dro **14**

Effaith gronnus casgliad o adeiladau trwyddedig **14**

Cynllunio **16**

Cludiant **16**

Twristiaeth **16**

Cydraddoldeb hil **17**

Gwahaniaethu ar Sail Anabledd **17**

Gorfodaeth **17**

Deddfwriaethau Eraill **18**

Atodiad 1 **19**

Atodiad 2 **20**

Atodiad 3 **21**

Atodiad 4 **23**

Atodiad 5 **24**

1 Cefndir

1.1 Cyhoeddir y Datganiad Polisi Trwyddedu hwn yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 ("y Ddeddf") ac mae'n cydymffurfio â chyfarwyddyd yr Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ("*DCMS*") i Awdurdodau Lleol. Mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ("yr Awdurdod Trwyddedu") baratoi a chyhoeddi ei Bolisi Trwyddedu bob tair blynedd. Yn ystod y tair blynedd, mae'n rhaid adolygu'r polisi a gall yr Awdurdod Trwyddedu ei ddiwygio fel yr ystyria'n briodol.

2 Cyflwyniad

2.1 Mae'r Ddeddf wedi cyflwyno diwygiadau pwysig i gyfraith trwyddedu diodydd meddwol ac adloniant cyhoeddus gan greu system unedig ar gyfer rheoli gwerthiant a chyflenwi alcohol. At hyn, mae'r Ddeddf yn cyfuno cynlluniau trwyddedu alcohol, adloniant cyhoeddus, theatrau, sinemâu a chaffis nos ac yn trosglwyddo'r hawl i ganiatáu trwyddedau alcohol o lysoedd yr ynadon i awdurdodau lleol.

2.2 Mae'r ddogfen yn amlinellu'r polisïau y bydd yr Awdurdodau Trwyddedu yn eu defnyddio'n gyffredinol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu wrth benderfynu ar geisiadau a wneir o dan y Ddeddf, ac yn ei dro bydd yn cynorthwyo'r rhai sy'n gwneud cais am drwyddedau, y cyrff sy'n ymwneud â phenderfynu ar drwyddedau a'r rhai sydd â diddordeb neilltuol yng ngwaith yr Awdurdod Trwyddedu.

2.3 Mae'r polisi hwn wedi cymryd y ddeddfwriaeth a'r cyfarwyddyd cyfredol a gyhoeddwyd gan y *DCMS* i ystyriaeth a bydd yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau cyfrifol (Atodiad 1), busnesau lleol a rhanddeiliaid eraill perthnasol a'i bartneriaid. Cydnabyddir bod swyddogaeth y sector preifat a thrigolion lleol a grwpiau cymunedol yr un mor bwysig ag un y sefydliadau cyhoeddus/preifat.

2.4 Wrth ymgymryd â'i swyddogaeth drwyddedu, mae'r awdurdod hefyd yn atebol i ddeddfwriaethau eraill a phan fydd y gyfraith bresennol yn rhoi dyletswydd statudol ar ymgeiswyr, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gosod yr un cyfrifoldebau, na rhai tebyg, drwy amodau trwyddedu.

2.5 Mae nifer sylweddol o bobl yn byw ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam ac mae dyletswydd ar y Cyngor i warchod eu mwyniant. Mae hawl cyfreithiol gan weithredwyr masnachol i ddarparu economi bywiog gyda'r nos ac mae'r un hawl gan drigolion i gael eu diogelu yn erbyn unrhyw ddrwg effeithiau o'r gweithgareddau hynny.

3 Amcanion Trwyddedu

3.1 Wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn talu sylw i bedwar amcan trwyddedu: (mae pwysigrwydd cyfartal i bob un ohonynt):

1. Atal Trosedd ac Anhrefn
2. Diogelwch y Cyhoedd
3. Atal niwsans cyhoeddus
4. Amddiffyn plant rhag niwed

3.2 Wrth ystyried yr uchod, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn canolbwyntio ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt mewn adeiladau trwyddedig ar aelodau'r cyhoedd sy'n byw, yn gweithio neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau arferol yng nghyffiniau'r adeiladau hynny yn ogystal â chanolbwyntio ar yr adeiladau trwyddedig.

3.3 Atal Trosedd ac Anhrefn

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn talu sylw i strategaethau'r Llywodraeth a rhai lleol, cyhyd â'u bod yn effeithio ar amcanion y Ddeddf. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r strategaethau:-

Strategaeth Lleihau Trosedd ac Anhrefn
Côd Ymarfer LACORS / TSI ar brofi pryniant
Clybio Diogelach
Polisi Gorfodaeth
Cynllun *Night-safe*
Cynllun prawf oedran
Gwasanaeth TCC yng nghanol y dref
Cynlluniau Gwarchod Tafarndai
Awdurdod Diwydiant Diogelwch
Cynllun Cludiant Lleol

At hyn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymgynghori â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol pan fo'n briodol, ac yn ei chynnwys, wrth wneud penderfyniadau er mwyn mwyafu effeithiolrwydd lleihau trosedd.

3.4 Goruchwylwyr Drysau

Pa bryd bynnag y bydd gweithwyr diogelwch yn cael eu cyflogi mewn adeiladau trwyddedig i gyflawni unrhyw swyddogaethau diogelwch, mae'n rhaid iddynt fod wedi'u trwyddedu gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch (ADD).

Mae goruchwylwyr drysau cymwys a phroffesiynol yn allweddol i atal trosedd ac anhrefn mewn adeiladau trwyddedig yn ogystal â diogelwch y cyhoedd ac mae darparu goruchwylwyr drysau yn bwynt gweithredu i'r diwydiant hamdden ei ystyried yn Strategaeth y Swyddfa Gartref i Leihau Niwed Alcohol.

Petai daliwr trwydded yn cyflogi gweithwyr diogelwch yn uniongyrchol mae'n rhaid iddi/iddo fod wedi'i th/drwyddedu gan yr ADD fel goruchwyliwr / rheolwr.

Mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn edrych yn fwy ffafriol ar geisiadau am drwydded sy'n dangos bod dalwyr trwydded wedi ystyried y canlynol:

- Recriwtio staff goruchwylio drysau â thrwydded ADD oddi wrth gwmni cyfrifol gyda Statws Contractwr Cymeradwy ADD.
- Pa gamau a gymerir, a pha weithdrefnau sydd yn eu lle, i ddalwyr trwydded archwilio cofrestr goruchwylwyr drysau trwyddedig ADD, i sicrhau mai dim ond goruchwylwyr drysau â thrwydded ADD sy'n gwarchod eu hadeilad a'u cwsmeriaid.

3.5 Diogelwch y Cyhoedd

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn dymuno hyrwyddo safonau uchel o ddiogelwch cyhoeddus mewn perthynas ag adeiladau a gweithgareddau o fewn cwmpas Deddf Drwyddedu 2003.

3.6 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn talu sylw i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch ac yn cysylltu â'r Awdurdod Cyfrifol i ddibenion gorfodi a gosod amodau angenrheidiol.

3.7 Mae pob math o adeilad yn golygu cymysgedd o risgiau, mae nifer ohonynt yn gyffredin i'r rhan fwyaf o adeiladau tra bo eraill yn unigryw i weithredwyr penodol. Mae'n hanfodol bod adeiladau yn cael eu hadeiladu neu eu haddasu a'u gweithredu i gydnabod a diogelu preswylwyr rhag niwed.

3.8 Ni fydd unrhyw amod trwyddedu a osodir i wahardd anifeiliaid anwes am resymau diogelu'r cyhoedd yn berthnasol i gŵn tywys neu gŵn cynorthwyo.

3.9 Diogelwch Tân

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn talu sylw dyledus i sylwadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a bydd yn rhoi pwyslais arbennig ar ddiogelwch tân a maint deiliadaeth lle bo angen er mwyn diogelu'r cyhoedd. Petai Tystysgrif Tân yn bodoli eisoes ar gyfer adeilad a'i fod yn nodi maint deiliadaeth, defnyddir y ffigwr hwnnw.

3.10 Atal Niwsans Cyhoeddus

Gall adeiladau trwyddedig, yn enwedig y rhai sy'n gweithredu yn hwyr yn y nos ac yn oriau mân y bore, beri amrediad o niwsans sy'n effeithio ar fywyd, gwaith neu gwsg pobl gerllaw'r adeilad.

3.11 Wrth ystyried niwsans cyhoeddus, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y canlynol:-

- Sŵn (gan gynnwys dirgryniadau) o adeiladau
- Gwastraff
- Sbwriel
- Parcio Cerbydau
- Llygredd Golau
- Aroglau Atgas

3.12 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymryd ystyr eang cyfraith gwlad o niwsans cyhoeddus wrth benderfynu ar geisiadau ac adolygiadau trwyddedau / tystysgrifau adeiladau.

3.13 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn talu sylw dyledus i Adran Diogelu Amgylchedd Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor, o ran yr holl faterion sy'n berthnasol i'r uchod.

3.14 Mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gosod amodau i reoli niwsans o'r adeiladau sy'n bodoli eisoes gan gynnwys amodau a lunnir o gronfa amodau trwyddedu *DCMS*.

3.15 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cydbwyso'r posibilrwydd am gynnwrf cyfyngedig mewn mannau preswyl gyda'r angen i annog a hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr.

3.16 Wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau neu eu hadolygu o ran y term "yng nghyffiniau" bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymryd safbwynt synnwyr cyffredin o ran a yw'r adeilad yn achosi'n uniongyrchol neu'n debygol o achosi'n uniongyrchol, ynteu'n cael ei effeithio'n uniongyrchol, neu'n debygol o gael ei effeithio gan anhrefn neu gynnwrf.

3.17 Amddiffyn Plant rhag Niwed

Mae amddiffyn plant rhag niwed yn amcan trwyddedu pwysig. Er bo'r Ddeddf yn creu troseddau mewn perthynas â phlant digwmni sydd o dan 16 oed ac adeiladau trwyddedig, ni fyddai'r Awdurdod Trwyddedu yn ceisio cyfyngu mynediad plant fel arall i unrhyw adeilad oni bai fod hynny i'w hamddiffyn rhag niwed corfforol, moesol neu seicolegol.

3.18 Wrth benderfynu a ddylid cyfyngu mynediad plant ai peidio, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn barnu pob cais ar ei deilyngdod unigol ei hun. Byddai'r enghreifftiau a allai beri pryder penodol mewn perthynas â phlant gynnwys adeiladau:

(i) Lle mae adloniant neu wasanaethau i oedolion, neu o natur rywiol, yn cael eu darparu'n gyffredinol.
(ii) Lle mae aelodau presennol y staff a gyflogir yn y lle wedi'u heuogfarnu am weini alcohol i blant o dan oed neu fod gan y lle enw drwg fel man lle caniateir yfed diodydd meddwol o dan oedran.
(iii) Sydd â chysylltiad hysbys â chymryd cyffuriau neu ddelio mewn cyffuriau.
(iv) Lle mae elfen gref o hapchwarae yn yr adeilad (ond nid nifer fechan o beiriannau hapchwarae am wobrau ariannol, er enghraifft).
(v) Lle mae cyflenwi alcohol i'w yfed yn y lle yw unig ddiben, neu ddiben pennaf, y gwasanaethau a ddarperir yn y lle.

DS. Yn ôl y Ddeddf mae caniatáu i blant o dan 16 oed heb gwmni oedolyn fod yn bresennol mewn adeilad a ddefnyddir yn gyfangwbl, neu'n bennaf, ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed yn yr adeilad hwnnw, yn drosedd.

3.19 Pan fydd yr amgylchiadau a ddisgrifir yn 3.18 yn bodoli, mae'n bosibl y bydd amodau yn cael eu cysylltu â'r drwydded er mwyn amddiffyn plant rhag niwed. Fe allai amgylchiadau o'r fath gynnwys y canlynol:

(i) Cyfyngu'r oriau pan all plant fod yn bresennol.
(ii) Cyfyngiadau o ran caniatáu plant o dan oed neilltuol fod yn bresennol pan fydd gweithgareddau penodol yn cael eu cynnal.
(iii) Cyfyngu'r rhannau o'r adeilad lle y gellid caniatáu plant i gael mynediad.
(iv) Cyfyngiadau oedran (o dan 18).
(v) Yr angen i oedolion fod gyda'r plant (gan gynnwys, er enghraifft, cyfuniad o ofynion sy'n mynnu bod oedolyn gyda phlant o dan oedran neilltuol).
(vi) Gwahardd pobl o dan 18 oed yn llwyr o'r adeilad pan gynhelir unrhyw weithgareddau trwyddedig.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried cyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gweithio Gyda'n Gilydd i Amddiffyn Plant 2000.

3.20 Dylid nodi, yn gyffredinol, na fydd amodau sy'n ymwneud â chaniatáu mynediad i blant i unrhyw adeilad yn cael eu cysylltu â thrwyddedau neu dystysgrifau. Pan na fydd angen unrhyw gyfyngiadau trwyddedu, dylai hynny barhau'n fater i ddoethineb y daliwr trwydded neu glwb neu berson sydd wedi cael hysbysiad digwyddiad dros dro.

3.21 Mewn achos pan fydd adeilad sy'n dangos ffilmiau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl dalwyr trwydded neu glybiau i gynnwys trefniadau ar gyfer gwahardd plant rhag gweld ffilmiau ag oedran cyfyngedig, yn unol ag argymhellion Dosbarthiad Bwrdd Ffilmiau Prydain yn eu rhaglenni gweithredu.

3.22 Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn cymeradwyo **Côd Ymarfer Grŵp Portman ar Enwi, Pecynnu a Hyrwyddo Diodydd Alcohol.** Mae'r côd hwn yn ceisio sicrhau bod diodydd yn cael eu pacio a'u hyrwyddo mewn dull cymdeithasol cyfrifol, ac i'r rhai sydd dros 18 oed yn unig. Gellir cael manylion pellach am y Côd Ymarfer ar wefan Grŵp Portman.

4 Cerddoriaeth Fyw, Dawnsio a Theatr

4.1 Wrth geisio hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn gweithio'n brysur i hyrwyddo cerddoriaeth fyw a dawns a phob math arall o gelfyddyd sy'n gynwysedig yn y gyfraith drwyddedu newydd, ar draws yr ardal, mewn mannau ac adeiladau cyhoeddus a phreifat.

4.2 Digwyddiadau diwylliannol
Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod yr angen i annog a hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawns a theatr er lles diwylliannol ehangach y gymuned, yn enwedig i blant.

4.3 Bydd y ceisiadau yn cael eu hystyried yn ofalus, gyda'r bwriad o gydbwyso'r anghenion diwylliannol gyda'r angen i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

4.4 Nid yw cerddoriaeth, canu a dawnsio digymell yn gynwysedig yn y diffiniad o adloniant rheoledig a bydd unrhyw achos ohono yn cael ei asesu yn unol â'r Ddeddf.

4.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi dilyn polisi o gael trwydded adeilad yn ei enw ef ei hun ar gyfer mannau cyhoeddus fel sgwariau marchnad, strydoedd wedi'u pedestreiddio, griniau pentref, neuaddau cymunedol a mannau cyhoeddus tebyg at ddiben adloniant rheoledig, a bydd yn parhau i wneud hynny.

5 Trwyddedau Personol

5.1 Mae angen trwydded bersonol i gyflenwi alcohol.

5.2 Cyflwynir cais i'r Awdurdod Lleol ar gyfer yr ardal lle mae'r unigolyn yn byw fel arfer pan wneir y cais. Yna yr Awdurdod Lleol hwnnw fydd yr Awdurdod Trwyddedu perthnasol ar gyfer unrhyw faterion dilynol sy'n ymwneud â thrwydded bersonol gan gynnwys adnewyddiadau. Mae'n rhaid i ddaliwr trwydded bersonol hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu perthnasol am unrhyw newidiadau i enw neu gyfeiriad ac o unrhyw euogfarnau perthnasol yn ystod cyfnod y drwydded.

5.3 Cyhyd ag y bo'r ymgeisydd yn 18 oed neu'n hŷn, â chymhwyster trwyddedu achrededig gan yr Ysgrifennydd Gwladol, nad yw wedi colli trwydded bersonol yn ystod 5 mlynedd o wneud y cais ac nad oes ganddo unrhyw euogfarn anhreuliedig am drosedd perthnasol (a ddiffinnir yn y Ddeddf) y mae'r heddlu yn ei wrthwynebu, bydd y cais yn cael ei ganiatáu.

5.4 Am 10 mlynedd y mae trwydded bersonol yn cael ei rhoi yn y lle cyntaf, a gellir ei hadnewyddu wedyn oni bai ei bod yn cael ei hildio, ei diddymu neu bo'r Llysoedd yn cyhoeddi ei bod wedi'i fforffedu.

5.5 Pan fydd gan yr ymgeisydd euogfarn anhreuliedig am drosedd perthnasol a bod yr Heddlu yn gwrthwynebu'r cais ar sail atal troseddu, mae gan yr ymgeisydd hawl i wrandawiad o flaen yr Awdurdod Trwyddedu.

5.6 Wedi iddo ystyried yr hysbysiad gwrthwynebu dim ond er mwyn hyrwyddo'r amcan o atal trosedd y caniateir i'r Awdurdod Trwyddedu wrthod y cais. Rhaid caniatáu'r cais ym mhob achos arall. Dylid nodi, pan fo'r Heddlu wedi cyhoeddi hysbysiad gwrthwynebu, fel rheol dylid gwrthod y cais, oni bai fod yr Awdurdod Trwyddedu o'r farn bod yna amgylchiadau arbennig neu gymhellol sy'n cyfiawnhau caniatáu'r cais.

5.7 Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod y rhesymau llawn dros wrthod y cais am drwydded bersonol ac mae hawl i apelio i Lys yr Ynadon.

5.8 Nid fydd angen i aelod na gweithiwr clwb cymwys sydd â Thystysgrif Adeilad Clwb gael trwydded bersonol.

6 Trwydded Adeilad

6.1 Mae trwydded adeilad yn caniatáu unrhyw adeilad i gael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy, sef:

(i) adwerthu alcohol i'w brynu;
(ii) cyflenwi neu archebu alcohol gan glwb, neu ar ei ran, i aelod o'r clwb;
(iii) darparu adloniant rheoledig a ddiffinnir fel:
- Dangos Ffilm
- Perfformio Drama
- Digwyddiad Chwaraeon Dan Do
- Adloniant drwy Focsio neu Reslo
- Perfformio Cerddoriaeth Fyw
- Chwarae unrhyw Gerddoriaeth wedi'i Recordio
- Perfformio Dawns
- Adloniant o ddisgrifiad tebyg i'r rhai o fewn y tri diffiniad olaf uchod

(iv) cyflenwi lluniaeth yn hwyr yn y nos, h.y. cyflenwi diod neu fwyd poeth rhwng 11.00pm a 5.00am i'w yfed/bwyta yn yr adeilad neu oddi yno i aelod o'r cyhoedd neu o adeilad lle y mae gan y cyhoedd fynediad iddo.

6.2 Y rhai sy'n uniongyrchol gysylltiedig â rhedeg yr adeilad ar gyfer gweithgareddau trwyddedig fydd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr am drwydded adeilad er fod y ddeddfwriaeth yn enwi pobl eraill a ganiateir e.e. clwb cydnabyddedig, elusen a Prif Swyddog yr Heddlu. Gall cyrff corfforedig a rhai anghorfforedig wneud cais yn ogystal ag unigolion y mae'n rhaid iddynt fod yn 18 oed neu'n hŷn.

6.3 Cyflwynir ceisiadau am drwydded adeilad i'r Awdurdod Trwyddedu ac mae'n rhaid darparu'r canlynol i gyd-fynd â'r cais:

(i) Rhaglen Weithredu
(ii) Cynllun ar raddfa o'r adeilad ar ffurf benodol
(iii) Ffurflen ganiatâd gan y sawl sydd i'w enwi fel y Goruchwyliwr Adeilad Dynodedig, os yw alcohol yn cael ei gyflenwi yn yr adeilad.

6.4 Os yw clwb cymwysedig sydd â Thystysgrif Adeilad Clwb yn dymuno agor ei gyfleusterau a'i adeilad ar sail fasnachol, fe allai ddewis gwneud cais am drwydded adeilad.

6.5 Gellir cyflwyno cais i amrywio trwydded adeilad – mae'r dull yn debyg i'r un ar gyfer gwneud cais am drwydded adeilad. Dim ond i'r camau ychwanegol mewn perthynas â'r amrywiad y mae'n rhaid i'r rhaglen weithredu mewn perthynas â'r amrywiad roi sylw iddo.

6.6 Gellir adolygu trwydded adeilad ar unrhyw adeg o ganlyniad i dderbyn cwynion ynghylch mater sy'n codi yn yr adeilad mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu. Gall adolygiad arwain at addasu amodau'r drwydded; gwahardd gweithgaredd trwyddedadwy o gwmpas y drwydded; diswyddo goruchwyliwr dynodedig yr adeilad; atal y drwydded am gyfnod heb fod yn hwy na 3 mis neu ddiddymu'r drwydded.

6.7 Fel arfer bydd adolygiad yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Cyfrifol eraill i sicrhau hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, â'r nod o roi rhybudd cynnar i ddalwyr trwydded am unrhyw bryderon ynghylch adeilad. Dim ond awdurdodau cyfrifol a phartïon a diddordeb (e.e. trigolion lleol, mudiadau lleol a chynghorwyr) all wneud cais am adolygu trwydded; ni all yr awdurdod trwyddedu ei hyn ddechrau'r broses cynnal adolygiad. Rôl yr Awdurdod fydd gweinyddu'r broses a phenderfynu ar y canlyniad mewn gwrandawiad lle bydd angen cyflwyno tystiolaeth yn gysylltiedig â'r honiadau.

6.8 Yn gyffredinol, bydd unrhyw gyfeiriad yn y polisi hwn at drwydded adeilad yn cynnwys tystysgrif adeilad clwb.

7 Amodau Trwyddedu

7.1 Bydd trwyddedau yn cael eu teilwra i ddulliau a nodweddion unigol yr adeiladau a'r digwyddiadau perthnasol, yn amodol ar yr amodau sy'n cyfateb â'r rhaglen weithredu yn unig. Ceir nifer o amodau gorfodol (Gweler Atodiad 2) a fydd yn gysylltiedig â Thrwyddedau Adeiladau sydd â hawl i werthu alcohol, i ddangos ffilmiau neu sydd angen goruchwylwyr drysau.

7.2 Dim ond pan dderbynnir gwrthwynebiadau neu gwynion perthnasol a bod hynny'n ofynnol er mwyn hyrwyddo un neu fwy o'r pedwar amcan trwyddedu, y caiff amodau ychwanegol eu gosod.

7.3 Lle y bo'n briodol, gellir cael amodau o'r gronfa enghreifftiol o amodau a gynhyrchir gan y *DCMS* ac sydd ar gael ar wefan y *DCMS*. Nid yw'r rhestr yn gyflawn a gall yr Awdurdod Trwyddedu ei newid yn ôl yr angen o bryd i'w gilydd.

7.4 Wrth ystyried unrhyw amodau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod na ellir defnyddio'r swyddogaeth drwyddedu i reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol unigolion yn gyffredinol, wedi iddynt ymadael â rheolaeth uniongyrchol daliwr trwydded unrhyw adeilad perthnasol.

7.5 Gellir gorfodi'r amodau a phetaent yn cael eu torri gellir erlyn.

8 Gostyngiadau a Hyrwyddo Gwerthiant

8.1 Yn ychwanegol at yr amodau trwyddedu gorfodol byddai'r Awdurdod Trwyddedu yn annog mabwysiadu'n lleol, Godau Ymarfer gwirfoddol y diwydiant yn gynnwys y rhai sy'n ymdrin â hyrwyddo diodydd yn anghyfrifol, fel yr un a gynhyrchir gan Gymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain (*BBPA's Guidelines on On-Trade Promotions*).

8.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ystyried gosod unrhyw amodau trwyddedu angenrheidiol mewn cysylltiad â chyfyngu gostyngiadau a hyrwyddo gwerthiant pan dderbynnir cwynion sy'n nodi bod y fath amodau yn angenrheidiol ar gyfer adeilad neilltuol.

9 Rhaglen Weithredu

9.1 Mae maint a chyfyngiad y drwydded a geisir amdani yn cael ei diffinio gan y wybodaeth a rydd yr ymgeisydd yn y rhaglen weithredu.

9.2 Gellir gweld enghreifftiau o raglenni gweithredu ar Wefan y *DCMS*, ond mae'n rhaid cynnwys y canlynol:

(i) Y gweithgareddau trwyddedadwy perthnasol sydd i'w cynnal yn yr adeilad.
(ii) Yr amseroedd y bwriedir cynnal y gweithgareddau trwyddedadwy perthnasol (gan gynnwys yr amser yn ystod pob diwrnod o'r wythnos, yn ystod cyfnodau penodol o'r gwyliau ac yn ystod tymhorau penodol, os yw'r amseroedd yn debygol o fod yn wahanol yn ystod rhannau gwahanol o'r flwyddyn);
(iii) Ar unrhyw adegau eraill pan fydd yr adeilad ar agor i'r cyhoedd;
(iv) Y cyfnod hwnnw, pan fydd angen y drwydded ar gyfer cyfnod cyfyngedig yn unig;
(v) Pan fydd y gweithgareddau trwyddedadwy yn cynnwys cyflenwi alcohol, enw a chyfeiriad yr unigolyn sydd i'w enwi fel goruchwyliwr dynodedig yr adeilad;
(vi) Pan fydd y gweithgareddau trwyddedadwy yn cynnwys cyflenwi alcohol, pa un a yw'r alcohol i'w yfed yn yr adeilad neu oddi yno, neu'r ddau;
(vii) Y camau y mae'r ymgeisydd yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
(viii) Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i'r rhaglenni gweithredu ymdrin yn foddhaol â'r holl faterion sy'n ymwneud â'r amcanion trwyddedu. Cynghorir ymgeiswyr i gael cyngor ar y materion hyn os oes unrhyw amheuaeth ynghylch y gofynion.

9.3 Bydd y camau a enwir yn y rhaglen weithredu sy'n ymdrin â'r amcanion trwyddedu ac sy'n eu hyrwyddo, yn ffurfio rhan o amodau'r drwydded a gysylltir ag unrhyw drwydded, dystysgrif neu hysbysiad perthnasol.

10 Goruchwyliwr Adeilad Dynodedig

10.1 Gall unrhyw adeilad lle mae alcohol yn cael ei werthu gyflogi un neu ragor o ddalwyr trwydded bersonol. Prif ddiben y 'goruchwyliwr adeilad dynodedig' ("GAD") yw sicrhau bod bob amser un unigolyn penodol ymysg y dalwyr trwyddedau personol y gellir ei adnabod yn sydyn ar gyfer yr adeilad lle mae trwydded adeilad mewn grym. Fel rheol, bydd y person

hwnnw wedi cael cyfrifoldebau dyddiol am redeg yr adeilad gan ddaliwr trwydded yr adeilad. Mewn nifer o achosion, ac yn arbennig mewn busnesau bychain, bydd unigolyn yn ddaliwr trwydded adeilad ac yn ddaliwr trwydded bersonol a gall ef fod y GAD hefyd.

10.2 Mewn achosion eithriadol yn unig pan fyddant yn amau y byddai penodi GAD yn niweidio'r amcan atal trosedd ac anhrefn, gall yr Heddlu wrthwynebu'r fath benodiad. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried gwrthwynebiad o'r fath.

10.3 Os yw GAD newydd ei benodi, mae'n rhaid i ddaliwr trwydded yr adeilad gyflwyno cais ynghyd â ffurflen ganiatâd i ddangos bod yr unigolyn yn fodlon ymgymryd â'r rôl hon i'r Awdurdod Trwyddedu, a hysbysu'r Heddlu am y cais. Nid oes rhaid cyflwyno trwydded adeilad cyfan i'w diwygio.

11 Trosglwyddo Trwydded Adeilad

11.1 Gall person sydd â hawl i wneud cais am drwydded adeilad, sy'n cynnwys busnes, wneud cais am drosglwyddo trwydded adeilad.

11.2 Bydd trwydded adeilad yn cael ei throsglwyddo'n aml pan fydd busnes sy'n ymwneud â gweithgareddau trwyddedig yn cael ei werthu i berchennog newydd. Enw daliwr y drwydded yw'r unig beth sy'n newid wrth ei throsglwyddo, nid yw'n effeithio ar y drwydded mewn unrhyw ffordd.

11.3 Rhaid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu am y cais, a gallai'r Heddlu wrthwynebu petaent yn credu y byddai'r trosglwyddiad yn tanseilio'r amcan o atal troseddu.

12 Awdurdod Interim

12.1 Pan fydd daliwr trwydded adeilad yn marw neu'n mynd yn fethdalwr neu'n analluog yn feddyliol yna bydd y drwydded yn dod i ben. Fodd bynnag, os yw unigolyn sydd â diddordeb yn yr adeilad, neu sydd â chysylltiad gyda chyn ddaliwr y drwydded yn cyflwyno cais am awdurdod interim i'r Awdurdod Trwyddedu, cyn pen 28 diwrnod o amgylchiadau o'r fath (yn dechrau y diwrnod ar ôl i'r drwydded ddod i ben), adferir y Drwydded Adeilad am gyfnod o dri mis, a bydd yn dod i ben wedi hynny. Disgwylir cyflwyno cais ffurfiol i drosglwyddo'r drwydded yn ystod y cyfnod hwn.

12.2 Rhaid cyflwyno hysbysiad awdurdod interim i'r heddlu cyn pen saith diwrnod wedi cyflwyno cais o'r fath i'r Awdurdod. Lle bo angen, gall yr Heddlu wrthwynebu'r hysbysiad dan yr amcan 'atal trosedd ac anhrefn' cyn pen dau ddiwrnod gwaith. Yna bydd yr Awdurdod yn cynnal gwrandawiad i ystyried y gwrthwynebiad.

12.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod yr angen i ystyried unrhyw wrthwynebiadau yn sydyn dan yr amgylchiadau hyn.

13 Oriau Trwyddedig

13.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn dymuno hyrwyddo datblygiad economïau lleol ffyniannus a diogel yn ystod yr hwyr ac yn y nos.

13.2 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y gall amseroedd cau sefydlog ac anarferol o gynnar mewn rhai ardaloedd arwain at gynnydd mewn anhrefn a chynnwrf pan fydd nifer fawr o bobl yn tueddu i adael adeiladau trwyddedig ar yr un pryd. Felly, efallai y bydd oriau trwyddedig hwy ar gyfer gwerthu alcohol yn cael eu hystyried fel ffactor pwysig mewn lleihau ymrafael mewn allfeydd gwerthu bwyd yn hwyr y nos, safleoedd tacsis a ffynonellau cludiant eraill mewn ardaloedd lle cafwyd digwyddiadau o anhrefn a chynnwrf.

13.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymdrin â mater oriau trwyddedig gan dalu sylw i rinweddau unigol pob cais a phan dderbynnir gwrthwynebiadau a chwynion perthnasol, mae'n bosibl y bydd amodau o ran oriau masnachu yn cael eu gosod ar y drwydded lle cânt eu hystyried yn angenrheidiol i fodloni'r amcanion trwyddedu.

13.4 Pan wneir cais i ymestyn yr oriau agor cyfredol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl bod rhestr weithredu'r ymgeisydd yn nodi'r camau sydd i'w cymryd i sicrhau bod yr amcanion trwyddedu yn cael eu bodloni.

13.5 Yn gyffredinol dylid caniatáu i siopau, storfeydd ac archfarchnadoedd werthu alcohol i'w yfed y tu allan i'r adeilad ar unrhyw adeg pan fydd yr allfa adwerthu ar agor ar gyfer siopa, oni bai fod yna resymau da iawn dros gyfyngu'r oriau hynny mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu, ac yn enwedig o ran atal trosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus mewn mannau penodol mwy poblog.

13.6 Nid oes unrhyw ddyletswydd ar ddaliwr trwydded adeilad neu ddaliwr tystysgrif adeilad clwb i aros ar agor am y cyfnod cyfan a ganiateir gan ei drwydded neu dystysgrif.

14 Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro

14.1 Gall person 18 oed neu'n hŷn ddefnyddio adeilad ar gyfer un neu ragor o weithgareddau trwyddedadwy am gyfnod heb fod yn hwy na 96 awr os cyflwynir hysbysiad dyblyg i'r Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu ar y ffurf benodol heb fod yn hwyrach na 10 diwrnod gwaith cyn y mae'r digwyddiad fod i gychwyn. Bydd yn rhaid talu ffi i'r Awdurdod Trwyddedu.

14.2 Gellir ond defnyddio Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro pan nad oes mwy na 499 yn bresennol ar yr un pryd (yn cynnwys staff a pherfformwyr).

14.3 Gall daliwr trwydded bersonol gynnal hyd at 50 o ddigwyddiadau trwyddedadwy dros dro bob blwyddyn, dim ond 5 digwyddiad o'r fath gall unigolyn eu cynnal.

14.4 Mae cyfyngiad pellach, sef na ellir defnyddio adeilad fwy na 12 gwaith am gyfnod nad yw'n hwy na 15 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr. Yn yr un modd, mae'n rhaid bod 24 awr rhwng y digwyddiadau ar gyfer yr un adeilad gan yr un defnyddiwr.

14.5 Gall yr Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu wrthwynebu – mae'n rhaid iddynt gael eu hysbysu o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y digwyddiad - ac o ganlyniad efallai na chaniateir cynnal y digwyddiad.

14.6 Lle derbynnir sylwadau gan yr Heddlu (trwy gyfrwng hysbysiad gwrthwynebu), ac nad yw'n cael ei dynnu yn ôl, bydd y Cyngor yn cynnal gwrandawiad. Gall yr heddlu dynnu'r hysbysiad gwrthwynebu yn ôl trwy ddiwygio'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro mewn cytunwch â defnyddiwr yr adeilad, a chyflwyno copi i'r Cyngor.

14.7 Dywed y gyfraith bod rhaid rhoi isafswm o 10 diwrnod gwaith o rybudd. Anogir ymgeiswyr i roi mwy o rybudd na hyn, os oes modd.

15 Gweithgareddau Eithriedig

15.1 Mae Deddf 2003 yn nodi bod nifer o weithgareddau wedi'u heithrio ac nad oes angen trwydded ar eu cyfer. Mae gwasanaethau crefyddol neu adloniant mewn man addoli cyhoeddus, garddwesti, dawnsio morris a defnyddio derbynwyr teledu neu radio ymhlith yr enghreifftiau.

15.2.1 Os nad yw ymgeiswyr yn siŵr a oes angen trwydded ar gyfer gweithgaredd, gofynnir iddynt gysylltu â'r Swyddog Trwyddedu a enwir yn Atodiad 5 y Polisi hwn.

16 Datganiad Dros Dro

16.1 Lle mae adeilad yn cael ei adeiladu, neu ar fin cael ei adeiladu i'w ddefnyddio ar gyfer un neu ragor o weithgareddau trwyddedadwy, neu'n cael ei ymestyn neu ar fin cael ei ymestyn, neu'n cael ei newid fel arall i'r diben hwnnw, byddai'r datblygwr neu berson sydd â diddordeb yn yr adeilad am gael rhywfaint o sicrwydd y byddai trwydded adeilad yn cynnwys y gweithgareddau trwyddedadwy sy'n ddymunol yn cael ei chaniatáu ar gyfer yr adeilad wedi i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau.

16.2 Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid cyflwyno cais am ddatganiad dros dro. Dylid cyflwyno rhestr weithredu sy'n cynnwys datganiad o'r gweithgareddau trwyddedu y bwriedir defnyddio'r adeilad ar eu cyfer, yn ogystal â chynlluniau'r adeilad a'r gwaith arfaethedig gyda'r cais. Rhaid hysbysebu'r cais.

16.3 Os na dderbynnir gwrthwynebiadau na chwynion perthnasol, mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu roi datganiad dros dro.

16.4 Pan gwblheir y gwaith, mae'n rhaid gwneud cais am drwydded adeilad yn y dull arferol.

17 Effaith gronnus casgliad o adeiladau trwyddedig

17.1 Mae'n bosibl y bydd Awdurdod Trwyddedu yn derbyn cwynion gan naill ai awdurdod cyfrifol neu rywun cyfrannog, bod effaith gronnus trwyddedau newydd yn golygu bod ardal yn cael ei boddi gan adeiladau o fath arbennig, yn ei gwneud yn ganolbwynt i grwpiau mawr o bobl i ymgasglu, a thrwy hynny greu problemau anhrefn a niwsans eithriadol sy'n fwy nag

effaith yr adeiladau unigol eu hunain. Mewn achosion o'r fath, gellir ystyried yr effaith gronnus wrth bwyso a mesur rhinweddau unigol unrhyw gais.

17.2 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gweithredu dogn o unrhyw fath a fyddai'n penderfynu ar unrhyw gais o flaen llaw, ac ni fydd yn ceisio gosod cyfyngiadau cyffredinol ar oriau masnachu mewn ardaloedd penodol ychwaith. Ond yn hytrach, bydd sylw yn cael ei roi i nodweddion unigol yr adeilad perthnasol mewn ardal benodol. Cydnabyddir bod tafarndai, clybiau nos, tai bwyta, gwestai, theatrau a chlybiau eraill i gyd yn gwerthu alcohol, yn gweini bwyd ac yn darparu adloniant ond bod eu dulliau a'u nodweddion yn gyferbyniol. Telir sylw priodol i'r gwahaniaethau hynny a'r gwahanol effeithiau y maent yn debygol o gael ar y gymuned leol.

17.3 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymryd y camau canlynol wrth ystyried a ddylid mabwysiadu polisi dirlawnder arbennig:

* Awdurdod cyfrifol neu gynrychiolydd preswylwyr yn nodi pryder difrifol am niwsans ac anhrefn
  - lle gellir dangos bod anhrefn a niwsans yn digwydd o ganlyniad i gwsmeriaid o adeilad trwyddedig, gan nodi'r ardaloedd lle y mae'r problemau yn deillio a ffiniau'r ardal honno
  - asesu'r achosion
  - mabwysiadu polisi am geisiadau trwyddedu o'r ardal honno yn y dyfodol

17.4 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried cwynion ar sail effaith hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn y Fwrdeistref Sirol yn gyffredinol petai'n caniatáu'r cais penodol sydd o'i flaen.

17.5 Er hynny, mae cyfrifoldeb ar y gwrthwynebwyr i ddarparu tystiolaeth i gefnogi unrhyw honiad y byddai ychwanegu'r adeilad sydd o dan sylw yn creu'r effaith gronnus a honnir, gan ystyried y byddai'r effaith yn wahanol ar gyfer adeiladau o fath a nodweddion gwahanol.

17.6 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn adolygu unrhyw bolisïau dirlawnder arbennig o leiaf bob tair blynedd i weld a ydynt wedi cael yr effaith a fwriadwyd a pha un a oes eu hangen bellach.

17.7 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn defnyddio polisïau yn unswydd:

* fel sail i ddileu trwydded pan dderbynnir cwynion am broblemau gydag adeiladau trwyddedig cyfredol, neu
* wrthod addasu trwydded, ac eithrio pan fydd yr addasiadau yn uniongyrchol berthnasol i'r polisi, er enghraifft, pan fydd y cais ar gyfer cynnydd sylweddol yn y cyfyngiadau maint

17.8 Cydnabyddir hefyd, o dan y polisi hwn gellir cymeradwyo trwyddedau sy'n annhebygol o ychwanegu'n sylweddol at y dirlawnder, ac ystyrir amgylchiadau pob cais unigol.

17.9 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymryd "angen" i ystyriaeth wrth ystyried cais. Mae "angen" yn fwy perthnasol i'r galw masnachol am fath arbennig o adeilad, ac felly mae'n fater ar gyfer ystyriaeth gynllunio neu i'r farchnad ei ystyried.

18 Cynllunio

18.1 Yn arferol dylai ceisiadau am drwydded adeilad ar gyfer adeilad masnachol parhaol ddod gan fusnesau â chaniatâd cynllunio ar gyfer yr adeilad dan sylw. Serch hynny, gellir cyflwyno cais am drwydded cyn ceisio neu dderbyn caniatâd perthnasol gan yr awdurdod cynllunio.

18.2 Mae'r cyfundrefnau cynllunio a thrwyddedu yn cynnwys ystyried materion gwahanol (er eu bod yn gysylltiedig â'i gilydd). Er enghraifft, mae trwyddedu yn ystyried niwsans cyhoeddus lle bo cynllunio yn ystyried amwynder. Nid yw Pwyllgor Trwyddedu'n rhwym i benderfyniadau a wneir gan Bwyllgor Cynllunio, ac i'r gwrthwyneb.

18.3 Mae rhai amgylchiadau lle bo amser cau wedi ei nodi fel amod caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd adeilad at ddibenion masnachol. Lle bo'r amser yn wahanol i'r oriau trwyddedig, rhaid i'r ymgeisydd gadw at yr amser mwy cyfyngol.

18.4 Petai'r awdurdod trwyddedu yn caniatáu amrywio trwydded sy'n cynnwys addasiad o adeilad byddai'r ymgeisydd yn parhau'n atebol i wneud cais am ganiatâd cynllunio neu reolaeth adeiladau, lle bo'n briodol.

19 Cludiant

19.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod prinder cludiant cyhoeddus gyda'r nos, a gall hyn arwain at anhrefn. Mae'n cydnabod bod oriau trwyddedu sefydlog yn achos allweddol o anhrefn a chynnwrf ac yn rhoi pwysau ar gyfleusterau cludiant.

19.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gweithio gyda phartneriaid i geisio darparu cludiant cyhoeddus ychwanegol o ganol y dref yn y nos.

20 Twristiaeth

20.1 Mae cyfoeth o atyniadau a mannau i ymweld â hwy yn yr ardal. Mae Eglwys y Plwy Wrecsam a dau eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, h.y. Erddig a Chastell y Waun ymhlith y rhai mwyaf poblogaidd.

20.2 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod y diwydiant adloniant yn gyfranogwr pwysig i'r economi leol a bydd yn hybu denu ymwelwyr a chyfleoedd gwaith.

21 Cydraddoldeb hil

21.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn talu sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a chydberthnasau da rhwng pobl o wahanol grwpiau cymdeithasol.

22 Gwahaniaethu ar Sail Anabledd

22.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn talu sylw penodol i effaith debygol trwyddedu ar wahaniaethu ar sail anabledd wrth ystyried rheolaeth weithredol yr holl geisiadau, adnewyddiadau ac amrywiaethau i'r amodau trwyddedu arfaethedig.

23 Gorfodaeth

23.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi sefydlu protocolau gyda'r Heddlu ar faterion gorfodaeth mewn perthynas â'r Ddeddf. Mae'r protocolau hyn yn darparu ar gyfer targedu adeiladau y cytunwyd eu bod yn broblem ac yn risg uchel, gydag ymdriniaeth ysgafnach yn cael ei defnyddio ar gyfer adeiladau risg isel sy'n amlwg yn cael eu rhedeg yn dda.

23.2 Bydd gorfodaeth yr Awdurdod Lleol yn unol â choncordat egwyddorion gorfodaeth cytunedig Gorfodaeth y Llywodraeth ac yn unol â pholisi gorfodaeth yr Awdurdod Trwyddedu ei hun.

23.3 Bydd yr awdurdod yn ceisio defnyddio egwyddorion cysondeb, tryloywder a chyfranoledd a fydd hefyd yn berthnasol pan fydd trwyddedau adeiladau neu dystysgrifau adeiladau clwb yn destun adolygiadau.

24 Deddfwriaethau eraill

Wrth ymgymryd â'i swyddogaeth drwyddedu, mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn gaeth i unrhyw ddeddfwriaeth arall. Amlinellir rhai ohonynt isod;

1. Deddf Hapchwarae 2005
2. Mae Adran 17 o esemptiad Deddf Trosedd ac Anhrefn1998 yn mynnu bod Awdurdod Lleol yn gwneud popeth o fewn ei allu i atal trosedd ac anhrefn yn ei ardal.
3. Mae'r Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a awdurdodir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i amddiffyn hawliau unigolion mewn amrywiaeth o amgylchiadau.
4. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayb 1974
5. Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
6. Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
7. Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000
8. Deddf Awdurdodau Lleol (Rheoliadau Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus Penodedig) 2001
9. Deddf Plismona a Throsedd 2009
10. Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
11. Deddf Trosedd a Diogeledd 2010
12. Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001
13. Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005
14. Deddf Iechyd 2006
15. Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006

24.1 Pan fo'r ddeddf gyfredol yn gosod dyletswydd statudol ar ymgeiswyr, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gosod yr un dyletswyddau, na rhai tebyg, drwy amodau trwyddedu.

Atodiad 1

‘Awdurdodau Cyfrifol’ i’r Awdurdod Trwyddedu hwn

Rhaid hysbysu’r cyrff isod am geisiadau am drwyddedau adeiladau, am eu hamrywio neu eu hadolygu:

1. **Prif Swyddog yr Heddlu**
   Swyddfa Ranbarthol yr Heddlu, Bodhyfryd, Wrecsam, LL12 7BW
   Ffôn: 01978 290222

2. **Y Prif Swyddog Tân**
   Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Swyddfa Sirol Wrecsam, Yr Orsaf Dân, Ffordd Bradley, Wrecsam, LL13 7SU
   Ffôn: 01978 353876

3. **Asiantaeth Gorfodaeth Leol Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayb 1974 (naill ai'r Awdurdod Lleol neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogewlch (HSE))**
   Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoeddu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Swyddfeydd Rhiwbon, Stryd Fawr, Rhiwabon, Wrecsam, LL14 6NH
   Ffôn: 01978 813700

   Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Uned 7 & 8, Edison Court, Ellice Way, Parc Technoleg Wrecsam, Wrecsam, LL13 7YJ
   Ffôn: 01978 316000

4. **Adran Iechyd Amgylcheddol yr Awdurdod Lleol**
   Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Swyddfeydd Rhiwabon, Stryd Fawr, Rhiwabon, Wrecsam, LL14 6NH
   Ffôn: 01978 813700

5. **Yr Awdurdod Cynllunio Lleol**
   Y Prif Swyddog Cynllunio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Swyddfeydd Stryt y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR
   Ffôn: 01978 292500

6. **Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol / Pwyllgor Amddiffyn Plant yr Ardal**
   Prif Swyddog Diogelu a Chymorth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Adeiladau'r Goron, Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8BG
   Ffôn: 01978 292039

7. **Adran Safonau Masnach**
   Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Swyddfeydd Rhiwabon, Stryd Fawr, Rhiwabon, Wrecsam, LL14 6NH
   Ffôn: 01978 813700

Atodiad 2

AMODAU MANDADOL Y MAE'N RHAID EU CYSYLLTU Â THRWYDDEDAU

Pan fydd Trwydded Adeilad yn awdurdodi cyflenwi alcohol

1. Ni ellir cyflenwi alcohol o dan Drwydded yr Adeilad:-
   a) Ar adeg pan na fydd Goruchwyliwr Adeilad Dynodedig ar gyfer Trwydded Adeilad, neu
   b) Ar adeg pan na fydd gan y Goruchwyliwr Adeilad Dynodedig Drwydded Bersonol neu pan fydd ei Drwydded Bersonol wedi'i hatal.

2. Mae'n rhaid i unrhyw alcohol a gyflenwir o dan y Drwydded Adeilad gael ei gyflenwi neu ei awdurdodi gan berson sydd â Thrwydded Bersonol.

Dangos Ffilmiau

1. Pan fydd Trwydded Adeilad neu Dystysgrif Adeilad Clwb yn caniatáu dangos ffilmiau, mae'n rhaid i'r drwydded neu'r dystysgrif gynnwys amod sy'n mynnu bod mynediad plant i weld unrhyw ffilm yn cael ei gyfyngu yn unol â'r paragraffau hyn.

2. Pan fydd y corff dosbarthu'r ffilm yn cael ei enwi yn y Drwydded neu'r Dystysgrif, oni bai fod paragraff 3(b) isod yn berthnasol, mae'n rhaid cyfyngu mynediad plant yn unol ag unrhyw argymhellion a wneir gan y corff hwnnw.

3. Pan,
   a) na fydd corff dosbarthu'r ffilm yn cael ei enwi yn y Drwydded neu'r Dystysgrif, neu
   b) fod yr Awdurdod Trwyddedu wedi hysbysu daliwr y Drwydded neu'r clwb sydd â'r dystysgrif, bod y paragraff hwn yn berthnasol i'r ffilm sydd o dan sylw,

   mae'n rhaid cyfyngu mynediad plant yn unol ag unrhyw argymhellion a wneir gan yr Awdurdod Trwyddedu.

4. Yn y paragraffau hyn mae 'plant' yn golygu unigolion o dan 18 oed, ac mae 'corff dosbarthu ffilm' yn golygu'r person neu bersonau a ddynodir fel yr awdurdod o dan adran 4 o Ddeddf Recordio Fideo 1948 (awdurdod i benderfynu addasrwydd gwaith fideo ar gyfer eu dosbarthu).

Goruchwylio Drysau

1. Pan fydd Trwydded Adeilad yn cynnwys amod bod yn rhaid i un neu ragor o unigolion fod yn yr adeilad i gyflawni dyletswyddau diogelwch ar amseroedd penodol, mae'n rhaid i'r Drwydded gynnwys amod y bydd pob unigolyn o'r fath wedi'i drwyddedu gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch.

Hyrwyddo Anghyfrifol

1. (1) Bydd y person cyfrifol yn dilyn pob cam rhesymol i sicrhau nad yw staff yn yr adeilad perthnasol yn cynnal, trefnu nac yn cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddiadau anghyfrifol yng nghyswllt yr adeilad.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr hyrwyddo anghyfrifol yw un neu ragor o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau tebyg i raddau sylweddol, a gynhelir at ddiben annog gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn yr adeilad sy'n cynnwys risg sylweddol o gyfrannu at drosedd ac anhrefn, tarfu ar ddiogelwch y cyhoedd, creu niwsans cyhoeddus neu niwed i blant -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n annog neu'n ei gwneud yn ofynnol, neu wedi eu dylunio i annog neu ei gwneud yn ofynnol i unigolion –

(i) yfed swm o alcohol mewn cyfnod penodol (ac eithrio yfed alchol a werthwyd neu a gyflenwyd yn yr adeilad cyn diwedd y cyfnod yr awdurdodir y person cyfrifol i werthu neu gyflenwi alcohol) neu
(ii) yfed gymaint o alcohol â phosibl (p'un ai oes cyfnod amser penodol ai peidio);

(b) darparu alcohol heb gyfyngiadau am bris sefydlog neu ddisgownt i'r cyhoedd neu i griw a ddiffinnir gan nodwedd benodol (ac eithrio unrhyw hyrwyddiad neu ddisgownt a gynigir i unigolion yng nghyswllt alcohol i'w yfed gyda phryd bwyd, fel a ddiffinnir yn Adran 159 y Ddeddf);

(c) rhoi alcohol am ddim neu am ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai;

(d) rhoi alcohol am ddim neu am ddisgownt yn nghyswllt gwylio camp chwaraeon yn yr adeilad, lle bo'r ddarpariaeth yn ddibynnol ar –

(i) ganlyniad ras, cystadleuaeth neu unrhyw ddigwyddiad neu broses arall, neu
(ii) y tebygolrwydd bod rhywbeth yn digwydd neu ddim yn digwydd;

(e) gwerthu neu gyflenwi alcohol yn gysylltiedig â phosteri neu daflenni hyrwyddo neu, yng nghyffiniau adeilad y gellid ystyried yn rhesymol ei fod o blaid, yn annog neu'n gwneud ymddygiad gwrthgymdeithasol ymddangos yn dderbyniol neu gyfeirio at effeithiau meddwdod mewn modd ffafriol.

Cyflenwi Alcohol

2. Bydd y person cyfrifol yn sicrhau nad oes unrhyw alcohol yn cael ei gyflenwi gan un unigolyn yn uniongyrchol i geg un arall (ac eithrio lle nad yw'r unigolyn arall yn medru yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

Dŵr Yfed

3. Bydd y person cyfrifol yn sicrhau y darperir dŵr tap am ddim i gwsmeriaid ar gais i'r perwyl hynny, lle y bo ar gael yn rhesymol.

Dilysu Oedran

4. (1) Bydd y daliwr trwydded adeilad neu'r daliwr tystysgrif clwb yn sichrau bod y polisi dilysu oedran yn weithredol yn yr adeilad yng nghyswllt gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i'r polisi ei gwneud yn ofynnol i unigolion sy'n ymddangos yn iau na 18 oed (neu oedran hŷn a nodir yn y polisi) i'r person cyfrifol gyflwyno tystiolaeth o pwy ydyn nhw yn dangos llun, dyddiad geni a marc holograffig, cyn y rhoir alcohol iddyn nhw.

Mesurau Alcohol i'w hyfed

5. Bydd y person cyfrifol yn sicrhau –

(a) lle bo unrhyw un o'r diodydd feddwol isod yn cael eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed yn yr adeilad (ac eithrio diodydd feddwol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi a'u cymysgwyd yn flaenorol yn barod i'w gwrethu neu eu cyflenwi o gynhwysydd wedi ei gau'n ddiogel) eu bod ar gael i gwsmeriaid yn y mesurau isod –

(i) cwrw neu seidar: ½ peint;
(ii) gin, rum, vodca neu chwisgi: 25 ml neu 35 ml; a
(iii) gwin mewn gwydr: 125 ml; a

(b) bod cwsmeriaid yn ymwybodol bod y mesurau hyn ar gael.

Atodiad 3

Amodau sy'n gysylltiedig â Thrwyddedau Adeilad a Thystysgrifau Clwb (Cronfa o amodau)

Mae'r gronfa o amodau wedi'i llunio i gynorthwyo ymgeiswyr am Drwyddedau Adeilad a Thystysgrifau Adeilad Clwb i weithredu strategaethau sydd i'w cynnwys ar y rhestr Drwyddedu i sicrhau bod yr amcanion Trwyddedu yn cael eu bodloni yn unol â Phennod 7 ac Ychwanegiad D i K o Gyfarwyddiadau DCMS ac a atgynhyrchwyd fel a ganlyn i'w gwneud yn hawdd i gyfeirio atynt.

Bydd unrhyw amodau a gytunir arnynt / osodir yn gwbl briodol i'r cais.

Trosedd ac Anhrefn

Galwyr Testun / Radio
Goruchwylwyr Drysau
Cynhwysyddion plastig a gwydr gwydn
TCC
Cynhwysyddion agored na ddylid eu cymryd o'r adeilad
Cyfyngiadau ar fannau yfed
Cyfyngiadau Cynhwysedd
Cardiau prawf oedran
Hysbysiadau Atal Troseddu
Hyrwyddiadau Diodydd
Arwyddion
Mannau Lle Mae Llawer yn Yfed ar Eu Traed

Diogelwch y Cyhoedd

Yn ogystal â'r pwyntiau a wneir yn yr Ychwanegiad hwn dylai'r rhai sy'n paratoi rhaglenni gweithredu, awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol, ystyried:

Amodau Cenedlaethol a Safonol ar gyfer Mannau Adloniant Cyhoeddus
Y Cyfarwyddyd Digwyddiad Diogel
Rheoli Torfeydd yn Ddiogel
Camau tuag at asesu risg
Y Cyfarwyddyd i Ddiogelwch a Meysydd Chwaraeon
Cyfarwyddyd Diogelwch ar gyfer Celfyddydau Stryd, Gorymdeithiau a Pherfformiadau ar Raddfa Eang
Pobl ag Anableddau
Llwybrau Dianc
Archwiliadau Diogelwch
Llenni, Darnau Crog, Addurniadau a chlustogwaith
Cyfyngiadau Lle
Hysbysiadau Camau Gweithredu petai yna Dân

Tân yn dechrau
Colli Dŵr
Mynediad ar gyfer Cerbydau Argyfwng
Cymorth Cyntaf
Golau
Gosodiadau Trydan Dros Dro
Adloniant Chwaraeon Dan Do
Addasiadau i'r Adeilad
Effeithiau Arbennig

Diogelwch Cyhoeddus – Theatrau, Sinemâu, Neuaddau Cyngerdd a mannau tebyg

Adeiladau ar gyfer cynulleidfaoedd mewn eisteddleoedd agos at ei gilydd
Gofalwyr
Sefyll ac eistedd mewn aleau
Diodydd
Effeithiau arbennig
Golygfeydd
Llenni Diogelwch
Nenfydau
Seddau
Adeiladau a ddefnyddir i ddangos ffilmiau gyda a heb system galw staff

Niwsans Cyhoeddus

Oriau y mae adeiladau ar agor
Sŵn a dirgryniadau
Aroglau atgas
Llygredd golau

Plant

Mynediad i blant i adeiladau trwyddedig – yn gyffredinol
Cyfyngiadau Oedran – penodol
Cyfyngiadau Oedran – Sinemâu
Theatrau
Perfformiadau ar gyfer plant yn benodol
Côd Ymarfer Grŵp Portman – Pecynnu a Hyrwyddo Diodydd Alcohol
Cardiau Prawf Adnabod

Amodau cymhwyso statudol i Glybiau

Fel a ddiffinnir yng nghyfarwyddyd DCMS Atodiad I

Clybio Mwy Diogel

Fel a ddiffinnir yng Nghyfarwyddyd DCMS Atodiadau J a K

Atodiad 4

Gweinyddu, gweithredu a dirprwyo swyddogaethau

Mater	**Pwyllgor llawn**	**Is-bwyllgor**	**Swyddogion**
Cais am Drwydded Bersonol		Petai'r heddlu'n gwrthwynebu	Os na chyflwynir unrhyw sylwadau
Cais am Drwydded Bersonol gydag Euogfarnau Anhreuliedig		Pob achos	
Cais am Drwydded Adeilad / Dystysgrif Adeilad Clwb		Os caiff cwyn perthnasol ei wneud	Os na chyflwynir unrhyw gwynion perthnasol
Cais am Ddatganiad Dros Dro		Os caiff cwyn perthnasol ei wneud	Os na chyflwynir unrhyw gwynion perthnasol
Cais i Amrywio Trwydded Adeilad / Tystysgrif Adeilad Clwb		Os caiff cwyn perthnasol ei wneud	Os na chyflwynir unrhyw gwynion perthnasol
Cais i Amrywio Goruchwyliwr Adeilad Dynodedig		Petai'r Heddlu'n gwrthwynebu	Pob achos arall
Cais am gael diddymu fel Goruchwyliwr Adeilad Dynodedig			Pob achos
Cais i drosglwyddo Trwydded Adeilad		Petai'r Heddlu'n gwrthwynebu	Pob achos arall
Cais ar gyfer Awdurdodau Dros Dro		Petai'r Heddlu'n gwrthwynebu	Pob achos arall
Cais am Adolygu Trwydded Adeilad / Tystysgrif Adeilad Clwb		Pob achos	
Penderfynu a yw cwyn yn amherthnasol, yn wamal neu'n ofidus ayb			Pob achos
Penderfyniad i wrthwynebu pan mai'r Awdurdod Lleol yw'r un yr ymgynghorir ag ef yn hytrach na'i fod yn awdurdod perthnasol sy'n ystyried y cais		Pob achos	
Penderfynu ar Wrthwynebiad yr Heddlu i Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro		Pob achos	

Atodiad 5

I gael gwybod a oes angen trwydded ar gyfer gweithgaredd, cysylltwch ag:

Alan Davies, Swyddog Trwyddedu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Swyddfeydd Rhiwabon, Stryd Fawr, Rhiwabon, Wrecsam, LL14 6NH

Rhif ffôn: 01978 813782

E-bost: alan.davies@wrexham.gov.uk